

Y LLAFURWR DARLLENGAR

LAFURWR neu labwr cyffredin oedd John Eames o'r Rhandir, pentref Llandwrog, Sir Gaernarfon, pan fu farw ar 7 Gorffennaf, 1850 - ond nid mor gyffredin chwaith, oherwydd yr oedd yn dipyn o lyfrbryf. Ychydig o eiddo'r byd oedd ganddo yn ôl ei ewyllys a'r rhestr o'i eiddo: berfa, caib a rhaw ar gyfer ei waith bob dydd, ychydig o lestri a dodrefn tŷ, ac oriawr. Ond cyfrifwyd ei eiddo ar ôl ei farw yn werth £41, a hynny oherwydd y llyfrau oedd ganddo. Gadawai y Rhandir i'w fab Richard, a swmp o'i lyfrau sylweddol hefyd: *Geiriadur* Thomas Charles, bywgraffiad Thomas Charles (heb enwi'r awdur), 'Llyfr Gurnal', 'Gwaith Eliseus Coll' (sef Cole) ar Benarglwyddiaeth, a'r 'Wisg Wen'.

'Llyfr Gurnal' yn ddiau oedd *Y Cristion mewn Cyflawn Arfogath*. Dyma un o glasuron defosiynol Saesneg yr ail ganrif ar bymtheg, a gyhoeddwyd gan William Gurnall (1617-79) mewn tair rhan, 1655-58-62, ac yn aml wedi hynny. Cyfieithwyd y gwaith i'r Gymraeg a'i gyhoeddi gan Wasg Trefecca yn 1784, ac ail-yddangosodd yn 1794 (Trefecca eto), 1796 (Yr Wyddgrug), 1809 (Rhuthin), 1838-41 (Dinbych), 1850 (Utica, U.D.A.) a 1852 (Dinbych eto). Nid oedd wedi llwyr golli ei apêl yn yr 20fed ganrif: argraffwyd *Gemau Gurnal* yn 1924.

'Gwaith Eliseus Cole' oedd un arall o glasuron diwinyddol Saesneg yr ail ganrif ar bymtheg, sef *A Practical Discourse of God's Sovereignty*, a gyhoeddwyd gan Elisha Coles (1608?-1688) yn 1673. Argraffwyd cyfieithiad ohono dan y teitl *Traethawd Defnyddiol am Ben-*

Arghwyddiaeth Duw a'i Gyfiawnder yng Nghaerdydd yn 1711, wedyn yn 1760 (Bryste), 1802 (Caer), 1809 (Caerfyrddin) a 1842 (Lerpwl). Dirgelwch i mi yw'r cyfeiriad yn y rhestr eiddo at 'Gwaith Edwards ar ben Arglwyddiaeth', ac nid yw'r cyfeiriad tywyll yn yr ewyllys ei hun at 'lyfr Gwaith Edwards o America' o help chwaith...

Saesn oedd Gurnall a Coles, ond Cymro o Sir Gâr oedd Timothy Thomas (1720-68), ac yn weinidog gyda'r Bedyddwyr. Efe oedd awdur *Y Wisg-Wen Ddisglair*, a argraffwyd gyntaf yng Nghaerfyrddin yn 1759 gan Evan Powel, ac eto yn Nolgellau tua 1805. Sais arall oedd Samuel Clark, y cyhoeddwyd ei Feibl esboniadol yn Gymraeg yn 1813 yn Wrecsam.

Sais arall eto oedd yr enwog Richard Baxter (—), y diwinydd Presbyteraidd. Mae rhywfaint o ddryswch yn nhestun yr ewyllys: mae Eames yn enwi 'Tragywyddol Orphwysfa yr Saint a gwaith Baxter'. Gwaith Baxter oedd *Tragywyddol Orphwysfa*. (Amwythig, 1790); os oedd cyfrol arall o waith Baxter ganddo, mae'n debyg mai *Galwad i'r Annychweledig i droi a byw* ydoedd, neu o bosibl *Myfyrdodau diweddar y Parchedig Mr Baxter ar Farwolaeth...* oedd y gyfrol. Argraffwyd y *Galwad* yn Gymraeg yn Llundain ddwywaith (1659, 1677) ac yn Amwythig (1751, 1778, 1790), a detholiad ohono yn 1777 yn Nhrefecca. Roedd y *Myfyrdodau* yn llai poblogaidd, debyg; fe'i argraffwyd yn Nhrefecca yn 1792.

Y llyfr mwyaf gwerthfawr o eiddo John Eames, yn ôl y pris o £20 a geir yn y rhestr o'i eiddo, oedd *Geiriadur Ysgrifyrol* Thomas

Charles o'r Bala. Ni ellir gwybod pa argraffiad oedd gan John Eames; bu argraffiadau yn 1813, 1819-25 ac 1836-39 yn ystod oes Eames. Rhoes y *Geiriadur* a 'hanes bywyd Mr Charles' i'w fab Richard. Nid oes sicrwydd ai gwaith Robert Jones, Rhos-lan (*Cofiant... y diwedd Barch. T. Charles, Bala 1833*) ai Edward Morgan (*A Brief History of the life and labours of the Rev. T. Charles 1828*) oedd yr ail rodd. Mae'n debyg mai cynnyrch Rhos-lan ydoedd; nid wyf yn tybio fod gan John Eames gymaint â hynny o Saesneg, ond pwy a wŷr?

Owen Eames oedd i dderbyn nifer o gyfrol, gan gynnwys cyfrol Baxter a 'Beibl mawr Peter Williams' nad oes angen esboniad pellach, a hefyd 'Gwaith amrywiol o Caticisum Mr Charles'. Cyfeirio y mae at *Catecism byr: neu grynoded o egwyddorion efengylaidd* o waith Thomas Charles, a gyhoeddwyd yn gyntaf dan y teitl *Crynoded o egwyddorion crefydd*, a bu lliaws o argraffiadau o wasg Robert Sanderson, Y Bala.

Pleser, ond pleser ychydig yn chwithig, yw dychmygu John Eames yn rhoi ei ferfa, caib a rhaw heibio ar ddiwedd diwrnod trwm o waith, ac yn eistedd wrth ei fwrdd, rhwng y cloc a'r dresel a'r cwprwrdd press a enwir yn y rhestr eiddo, a throi at ei lyfrau, llyfrau y mae'r oes bresennol yn ystyried cyn drymed â'i lafur yntau.

Nodyn: rhif ewyllys John Eames yng nghasgliad profeb y Llyfrgell Genedlaethol yw B/1850/125.

GERALD MORGAN

WORTH agor Ffair Lyfrau'r Bala yn 2002, soniais y dylid cyhoeddi ysgrifau Bob Owen, *Dryllio'r Delwau*, yn un gyfrol. Ymhen yr hawg, cefais alwad ffôn gan Wasg Gwynedd yn holi a fyddwn yn fodlon golygu'r gyfrol. Tybiais innau y byddai'n well cael hanesydd cymwys, rhag ofn bod angen cywiro neu amodi rhai o (ym)osodiadau di-flewyn-ar-dafod yr hen Bob. Awgrymais enw hanesydd o'r un fro â Bob Owen, ond ni chlywais i ddim rhagor ac ni welodd y gyfrol olau dydd eto. Os aeth y syniad i'r gwellt, a allai'r Gymdeithas fentro ei chyhoeddi? A beth am ei ysgrifau niferus eraill? Tra bôm yn aros, da gweld ambell ysgrif o'i eiddo yn y *Casglwr*.

Y tro hwnnw hefyd codais bwnc rhwymo llyfrau yng Nghymru, gan ddweud pe ceid digon o ymateb, efallai y gellid trefnu cwrs i ddechreuwyd, yn Gymraeg, yn y Llyfrgell Genedlaethol. Daeth dau wr ifanc ataf wedyn ac anogais hwy i gysylltu â'r Gymdeithas. Ni ddigwyddodd dim wedyn. Gwnaf yr un apêl eto: os hoffech ddechrau dysgu'r grefft, cysylltwch â'r Ysgrifennydd. Nid oes angen criw mawr i gynnal cwrs: fel rheol byddai rhyw hanner dwsin yn berffaith yn ôl fy mhrofiad i. Yn y cyfamser, amheuthun fu darllen ysgrif werthfawr Iwan Bryn James yn y rhifyn diwethaf: ai ef yw'r cyntaf erioed i drafod rhwymo llyfrau'n broffesiynol yn Gymraeg? Yn dilyn ei siars i beidio byth â defnyddio tãp selo i atgyweirio llyfrau, mentraf awgrymu defnyddio *filmoplast P*, sy'n ddi-asid, y gellir ei gael gan F. J. Ratchford, Kennedy Way, Green Lane, Stockport SK4 2JX ffôn: 0161 480 8484. neu'n well fyth (ond yn llawer drutach) y *Document Repair Tape* ar gael gan Conservation Resources (UK) Ltd, Units 1, 2, 4 & 5 Pony Rd, Horspath Industrial Estate, Cowley, Oxford, OX4 2RD. Ffôn 01865 747755.

Symudodd y meistr-rwymwr Paul Delrue i Landudno a buom ein dau'n ffodus o gael dilyn gwersi dan ei ofal; a symudodd y rhwymwraig Ms Kate Hore i Gorwen ac agor gweithdy dan

Pigion Bruce

yr enw Teasdale Bookbinders: ffôn: 01490 412713. Ym Methesda y mae cartref Ms Lester Bath. Ysgrifennydd *Cymdeithas y Llyfr-rhwymwyr Cain (Society of Designer Bookbinders)*. Dysgodd hi'r Gymraeg yn rhugl a'i rhif ffôn yw 01248 602591. Gellir ymholi â'r rhwymwyr hyn a oes modd cael gwersi, er na warantaf ddim.

Ym mis Medi'r llynedd bu gennym stonid llyfrau yn Ffair Fêl Conwy a threulio diwrnod heulog digon diddan ar y Stryd Fawr. Rhaid cyrraedd ben bore i sicrhau lle, gan ddod â'ch bwrdd a'ch cadeiriau eich hun, ond ni chodir unrhyw dâl arnoch: ffair yw, nid marchnad. Cynhelir Ffair Hadau Conwy ar y 27ain o Fawrth, a'n bwriad yw codi stonid yno eto. A oes ffeiriau eraill lle ceir codi stonid am ddim? Rhowch wybod i'r *Casglwr*. Ar gyfer ffeiriau Conwy, ffonier: P. D. McFadden 01492 650851.

Mae'n syn yr hyn y gall y llyfrbryf o Gymro daro arno hyd yn oed yn Lloegr. Rhyw ddwy flynedd yn ôl roeddem ym Mryste. Bron gyferbyn â'r Brifysgol safai siop Oxfam lle'r oedd arwerthiant llyfrau. Prynais argraffiad Gwasg Gregynog (Rhif 374 o 400) o *Ganiadau* W. J. Gruffydd (1932), gan dalu £85 (gostyngiad o £120). Ar ei dudalen gweili mae enw cynberchennog: Gwyn Griffith, 1935. Pwy ydoedd, tybed? Hollol blaen yw'r rhwymiad, ac ôl traul ar y cloriau; ond mae'r argraffwaith ar bapur llwydaidd o waith llaw, ac engrafiadau ar bren o waith yr enwog Blair Hughes-Stanton yn hyfrydwech o hyd. Erbyn hyn rydym wedi hyfforddi ambell ffrind o'r tu hwnt i Glawdd Offa i fod yn effro i weld llyfrau Cymraeg/Cymreig mewn siop elusen neu sêl cist car a'u bachu drosom, gan osgoi unrhyw lyfr a'r gair "esboniad" yn ei deit!

On'd oedd hi'n hyfryd ar faes yr eisteddfod ym Meifod! Bu'n edifar gennym na fu inni dreulio wythnos yno. Yn stonid Gwasg Gregynog llygad-dynnwyd fi gan gyfrol ddiweddaraf y wasg: *Sundrie Pieces* George Herbert, detholiad o'i gerddi a'i ryddiaith gan Iarll Powis, gydag engrafiadau ar bren gan Sarah Van Niekerk. Ar ben ac wrth droed pob tudalen ceir diarhebiion o waith y bardd. Dyma lyfr neilltuol hardd, a dyma wario £375 arno, mwy nag a wariais erioed ar unrhyw un llyfr, a chymaint ag a gostiai wythnos ym Meifod mae'n debyg. Pe buaswn yn barod i wario rhyw £2,000 cawswn un o bymtheg copi eithriadol gain o waith llaw Julian Thomas o'r Llyfrgell Genedlaethol: ond bydd gofyn gwerthu cryn dipyn yn y ffeiriau llyfrau cyn gallu fforddio hynny! Anghofiais ddweud: ceir yn y gyfrol ambell gerdd goncridd. Dyma un: *Easier Wings*

